PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Coflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Hawdd ei Ddarllen

# Cynnwys





3 Cyflwyniad



5 Achosion pan roedden ni wedi dweud bod y gwasanaeth cyhoeddus yn anghywir



22 Achosion pan roedd y gwasanaeth cyhoeddus yn cytuno eu bod yn anghywir cyn i ni edrych ar bethau



27 Achosion pan doedden ni ddim yn cytuno â’r gŵyn



29 Rhagor o wybodaeth

# Cyflwyniad




Mae'r adroddiad yma'n rhoi enghreifftiau o waith **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** yn un o sefydliadau'r llywodraeth.

Rydyn ni'n delio â chwynion am **wasanaethau cyhoeddus** sy'n cael eu darparu gan:




- Cynghorau lleol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Cymdeithasau Tai
- Llywodraeth Cymru




Mae **gwasanaeth cyhoeddus** yn golygu gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan sefydliad sy'n rhan o'r llywodraeth.



Pan fyddwch chi’n cwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rhaid i ni bwyso a mesur eich achos.



Byddwn yn dweud beth ddylai ddigwydd i wneud pethau’n iawn.



Mae 11 o’r enghreifftiau yma yn achosion lle'r oeddem wedi cytuno â’r sawl a oedd wedi cwyno.



Mae 4 enghraifft pan roedd y gwasanaeth cyhoeddus yn cytuno eu bod yn anghywir cyn i ni edrych ar bethau.



Mae 3 enghraifft pan doedden ni ddim yn meddwl bod y gwasanaeth cyhoeddus wedi gwneud dim byd o’i le.

# Achosion pan roedden ni wedi dweud bod y gwasanaeth cyhoeddus yn anghywir



Ym mhob un o'r enghreifftiau, dydyn ni ddim wedi defnyddio enw go iawn pobl, oherwydd mae'r wybodaeth yma'n breifat.

## 1. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf



Roedd Mrs A wedi cwyno bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd hir i gwrdd â'i mab er mwyn iddyn nhw allu penderfynu sut i'w helpu.



Roedd gan ei mab (Mr B) gyflwr iechyd meddwl ac awtistiaeth.



Roedd Mr B wedi dioddef iselder wrth aros ac roedd wedi ceisio lladd ei hun.



Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi trin Mr B yn annheg



- Roedd Mr B yn oedolyn **agored i niwed**. Dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi ei drin mewn ffordd deg.



Mae **agored i niwed** yn golygu bod angen rhywfaint o gefnogaeth arnoch chi i aros yn ddiogel.




- Dylai'r Bwrdd Iechyd newid rhai o'r ffyrdd mae'n gweithio



## 2. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Roedd Mr B wedi cwyno bod ei fab C wedi aros 2 flynedd a hanner i gael llawdriniaeth frys.

Roedd C yn 11 oed.



Yn ystod y cyfnod yma roedd C wedi bod yn sâl nifer o weithiau ac wedi gorfod cael meddyginiaethau.



Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Roedd y Bwrdd Iechyd yn anghywir yn gwneud i C aros am y llawdriniaeth




- Doedd y Bwrdd Iechyd ddim wedi rhoi ei **hawliau dynol** i C




**Hawliau Dynol** ydy'r pethau sylfaenol y dylai pawb eu cael yn ôl y gyfraith.



## 3. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Roedd Mr Y wedi cwyno am sut roedden nhw wedi gofalu am ei fam (Mrs X) pan aeth hi i'r ysbyty.




Dywedodd Mrs X a'i theulu nad oedd hi eisiau unrhyw driniaeth.
Roedd hi eisiau cael ei pharchu ac eisiau cael marw'n gyfforddus.



Ond roedd yr ysbyty wedi'i throsglwyddo i ysbyty gwahanol i gael sgan.



Doedd dim gwely'n barod iddi yn yr ysbyty newydd yma. Bu hi farw ar droli yn aros am wely.



Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Ddylai Mrs X ddim wedi cael ei hanfon am sgan



- Doedd y teulu ddim wedi gallu treulio amser gyda hi ar ddiwedd ei bywyd




- Mae angen i'r ysbyty newid y ffordd mae'n gweithio gyda phobl

## 4. Cwyn am Gyngor Sir Ynys Môn



Roedd Mr G wedi cwyno oherwydd doedd y cyngor ddim wedi talu i'w wraig fod yn y cartref gofal iawn iddi hi.




Roedd gan wraig Mr G **ddementia**.



Mae **dementia** yn glefyd ar yr ymennydd sy'n gwneud i bobl anghofio pethau ac mae'n gallu eu gwneud nhw'n ddryslyd.



Doedd Mr G ei hun ddim yn iach, ond doedd y cyngor ddim wedi ei helpu rhyw lawer i ddod o hyd i gartref gofal addas i'w wraig.




Pan ddaeth Mr G o hyd i gartref gofal da, doedd y cyngor ddim am dalu iddi aros yno.




Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Doedd y cyngor ddim wedi gweithio gyda Mr G




- Dylai'r cyngor fod wedi meddwl beth oedd ei angen ar wraig Mr G a helpu i ddod o hyd i'r lle iawn iddi



- Dylai'r Cyngor roi'r arian roedd Mr G wedi'i wario ar y cartref gofal yn ôl iddo

## 5. Cwyn am Gyngor Gwynedd



Roedd Mrs X wedi cwyno nad oedd y cyngor wedi rhoi’r gefnogaeth iawn i’w mab. Roedd gan ei mab awtistiaeth.




Doedd y cyngor heb edrych ar y **cynllun gofal** ac roedd wedi lleihau ei gefnogaeth.




Mae **cynllun gofal** yn egluro pa ofal a chefnogaeth sydd eu hangen ar rywun.




Beth roedden ni wedi’i ddweud:

- Doedd y cyngor ddim wedi rhoi hawliau dynol y mab iddo




- Roedd y cyngor wedi bod yn anghywir

## 6. Cwyn am Gyngor Sir Ynys Môn



Roedd Mrs A wedi cwyno ar ei rhan ei hun ac ar ran ei chymdogion. Mae Mrs A yn anabl ac mae ganddi broblemau iechyd.



Mae hi a’i chymdogion yn byw mewn byngalos a gafodd eu hadeiladu ar gyfer pobl hŷn ac anabl.



Roedd hi wedi cwyno nad oedd y cyngor wedi adeiladu’r llefydd parcio hygyrch roedden nhw i fod i’w hadeiladu. Roedd hyn yn golygu ei bod hi’n anodd iddi fynd allan.





Beth roedden ni wedi’i ddweud:

- Roedd y cyngor wedi ei thrin yn annheg

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



- Dylai’r cyngor wneud **addasiad rhesymol** ar gyfer pobl anabl



Mae **addasiad rhesymol** yn golygu rhywbeth dylech chi ei wneud er mwyn i berson anabl allu cymryd rhan mewn pethau, yr un fath â phawb arall.



## 7. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Roedd Ms X wedi cwyno am y ffordd cafodd hi ei thrin pan roedd hi’n feichiog.



Dywedodd fod yr ysbyty wedi rhoi’r wybodaeth anghywir ar ei **chofnodion**.



Mae **cofnodion** yn golygu gwybodaeth sy’n cael ei hysgrifennu a'i chadw mewn ffeil neu ar gyfrifiadur.



Roedd hyn yn golygu bod pobl yn poeni y gallai hi anafu ei babi ar ôl iddo gael ei eni.



Doedd Ms X ddim yn cael mynd â'r babi adref fel roedd hi eisiau ei wneud.



Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi trin Ms X yn wael oherwydd ei hiechyd meddwl. Roedd hyn yn annheg




- Ond rhaid i'r Bwrdd Iechyd feddwl am ddiogelwch y babi




- Dylai'r Bwrdd Iechyd edrych ar hyn eto i weld sut dylai newid y ffordd mae'n gweithio

## 8. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Roedd Mr T wedi cwyno am ofal ei fam (Mrs Y) gan y Bwrdd Iechyd.



Roedd Mrs Y wedi dweud ei bod hi eisiau marw gartref.



Ond roedd y Bwrdd Iechyd wedi ei symud o un ysbyty i un arall.



Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Doedd y Bwrdd Iechyd ddim wedi gadael i Mrs Y farw mewn ffordd barchus





- Dylai'r Bwrdd Iechyd edrych ar sut mae'n trin pobl fel Mrs Y



## 9. Cwyn am Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Roedd Miss X wedi cwyno oherwydd bod y cyngor wedi stopio rhoi **cyllid** i fudiad ar gyfer pobl fyddar.




Mae **cyllid** yn golygu'r arian mae cyngor yn ei roi i fudiadau gwahanol.



Dywedodd Miss X nad oedd y cyngor wedi:

- Siarad â'r mudiad cyn stopio rhoi cyllid iddo



- Edrych ar sut byddai hyn yn effeithio ar bobl fyddar




Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Roedd y cyngor yn anghywir i beidio â siarad â'r mudiad




- Doedd y cyngor ddim wedi meddwl am sut byddai hyn yn effeithio ar bobl fyddar




Roedd y cyngor yn cytuno â ni.



Fe wnaethon nhw roi arian i'r mudiad yn y cyfamser tra roeddent yn siarad â phobl am stopio'r cyllid.

## 10. Cwyn am Gyngor Sir Ceredigion



Roedd Mrs K wedi cwyno oherwydd bod y cyngor wedi cymryd hir iawn i edrych ar gŵyn yn ei herbyn pan roedd hi’n gweithio mewn cartref nyrsio.




Beth roedden ni wedi’i ddweud:

- Roedd y cyngor wedi cymryd gormod o amser a heb ddweud wrthi beth oedd yn digwydd




- Dylai'r cyngor roi rhywfaint o arian i Mrs K oherwydd nad oedden nhw wedi'i thrin hi’n dda

## 11. Cwyn am Gyngor Sir Powys



Roedd Mr a Mrs A wedi cwyno oherwydd doedd y cyngor ddim wedi rhoi cefnogaeth iawn i 2 blentyn roedden nhw'n gofalu amdanyn nhw.




Roedd y plant dan ofal y cyngor ac yn byw gyda Mr a Mrs A.




Mae'r cyngor yn dweud y bydd yn dal i gefnogi pobl ifanc nes iddyn nhw orffen ysgol, coleg neu brifysgol - hyd at 24 oed.




Ond roedd y cyngor wedi stopio cefnogi'r bobl ifanc yma er eu bod nhw'n dal yn y coleg.




Roedd hyn wedi costio llawer iawn o arian i Mr a Mrs A.




Beth roedden ni wedi'i ddweud:

- Roedd y cyngor yn anghywir a dylai dalu arian i Mr a Mrs A




Cytunodd y cyngor i dalu Mr a Mrs A am eu costau.




Roedd y cyngor hefyd yn dweud y bydden nhw'n dysgu o'u camgymeriadau yn yr achos yma.

# Achosion pan roedd y gwasanaeth cyhoeddus yn cytuno eu bod yn anghywir cyn i ni edrych ar bethau



Yn yr achosion yma roedd y gwasanaeth cyhoeddus yn cytuno eu bod yn anghywir cyn i ni edrych yn llawn ar bethau.



Roedden nhw'n cytuno i wneud pethau'n iawn a gwneud yn siŵr na fyddai hyn yn digwydd eto.





Mewn nifer o achosion roedden nhw wedi talu arian i'r person a oedd wedi cwyno.



## 1. Cwyn am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Roedd Mr A yn ddyn hŷn gyda dementia. Roedd yn Sikh.



Pan aeth i'r ysbyty roedd y staff wedi torri ei farf a'r blew ar ei wyneb.

Mae hyn yn groes i'r grefydd Sikh.



Fe wnaethon ni ddweud y dylai'r Bwrdd Iechyd roi mwy o hyfforddiant i'w staff am sut mae gweithio gyda phobl o grefyddau a chefndiroedd gwahanol.




## 2. Cwyn am Trivallis, Cymdeithas Dai

Roedd angen ramp ar Ms A er mwyn gallu mynd i mewn ac allan o'i chartref ar ei sgwter.



Roedd y Gymdeithas Dai wedi gwneud ramp ond roedd y ramp mor wael doedd hi ddim yn gallu mynd i mewn ac allan o'i chartref.



Roedd y Gymdeithas Dai yn cytuno eu bod yn anghywir ac roedden nhw'n dweud y bydden nhw'n gwella'r ffordd maen nhw'n gweithio.

## 3. Cwyn am Gyngor Abertawe



Roedd Mrs X wedi cwyno oherwydd doedd Cyngor Abertawe ddim wedi cynnig cludiant am ddim i'r ysgol i’w merch 11 oed.
Roedd gan ei merch awtistiaeth.



Roedd y Cyngor wedi:

- Trefnu cyfarfod i edrych ar faterion yr achos yma




- Cytuno y dylid darparu trafnidiaeth i blant fel hyn



- Cytuno i edrych ar sut roedd yn penderfynu pwy ddylai gael cludiant am ddim i'r ysgol

## 4. Cwyn am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys



Mae gan Mr T anabledd sy’n effeithio ar sut mae’n cyfathrebu.



Mae’n cyfathrebu drwy ysgrifennu negeseuon e-bost hir. Mae rhai pobl yn ei chael hi’n anodd dilyn y negeseuon e-bost yma.



Roedd Mr T wedi cwyno mewn e-bost i’r **Comisiynydd** am y **Prif Gwnstabl.**



Mae’r **Comisiynydd** yn cael ei ddewis gan bobl leol i wneud yn siŵr bod yr Heddlu lleol yn gweithio’n iawn.



Y **Prif Gwnstabl** sy’n gyfrifol am yr Heddlu lleol.




Gofynnodd y Comisiynydd iddo lenwi ffurflen. Ond doedd Mr T ddim gallu gwneud hyn.
Dim ond drwy e-bost roedd yn gallu cyfleu ei gŵyn.



Doedd y Comisiynydd ddim wedi delio â hyn yn iawn.



Roedden ni wedi dweud y dylai'r Comisiynydd fod wedi meddwl am sut mae Mr T yn cyfathrebu â phobl.



Roedd y Comisiynydd yn cytuno â ni.
Bydd staff yn swyddfa'r Comisiynydd nawr yn cael hyfforddiant am wneud addasiadau rhesymol.

# Achosion pan doedden ni ddim yn cytuno â'r gŵyn

## 1. Cwyn am Ddinas a Sir Abertawe



Roedd Miss A wedi cwyno am ymddygiad pobl ifanc a oedd yn chwarae pêl-droed wrth ei chartref yn hwyr gyda'r nos.




Roedd Miss A eisiau arwydd a oedd yn dweud 'dim gemau pêl'. Doedd y cyngor ddim yn fodlon gwneud hynny.




Ysgrifennodd y cyngor at bobl leol yn gofyn iddyn nhw atgoffa eu plant i feddwl am bobl eraill pan fyddan nhw'n chwarae allan.



Ond dywedodd y cyngor fod gan y plant hawl i chwarae mewn lle diogel hefyd.




Roedden ni wedi dweud bod Miss A wedi codi nifer o bwyntiau pwysig, ond roedden ni'n meddwl bod y cyngor wedi gwneud y peth iawn.

## 2. Cwyn am Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



Roedd Ms Y wedi cwyno bod y cyngor wedi cymryd gormod o amser i gwrdd â hi i weld pa help roedd arni ei angen.




Fe wnaethon ni ddweud bod yr oedi yn ddealladwy.
Roedd adran y cyngor wedi bod yn brysur iawn.

## 3. Cwyn am Gyngor Sir Ddinbych



Roedd Mrs X wedi cwyno am y sŵn oedd yn dod o adeilad ysgol newydd ger ei chartref.




Roedd y cyngor wedi edrych ar y mater ond roedden nhw'n dweud nad oedd y sŵn yn rhy uchel.
Roedden ni'n cytuno â'r cyngor.

# Rhagor o wybodaeth



Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni:




Ffôn: **0300 790 0203**



E-bost: **holwch@ombwdsmon.cymru**




Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau**
**Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35**
**5LJf**